# Seremoniäu Gwobrwyo Dosbarth Graddio 2026

13 - 16 Gorffennaf 2026

Canolfan y Mileniwm, Bae Caerdydd

GORAU·MEDDIANT·GWYBODAETH

Cardiff Metropolitan University | Prifysgol Metropolitan Caerdydd

# Cynnwys


Llongyfarchiadau gan Ganghellor y Brifysgol **01**

Dirprwy Ganghellor a’r Llywydd Anrhydeddus **02**

Croeso gan Gadeirydd Bwrdd y Llywodraethwyr y Brifysgol **03**

Croeso gan Lywydd ac Is-Ganghellor y Brifysgol **05**

Yr Orymdaith **06**

Trefn y Seremoni **07**

Cyflwyno’r Graddau **07**

Cymrodoriaethau er Anrhydedd 2026 **08**

Ysgol Gelf a Dylunio Caerdydd **10**

Ysgol Dechnolegau Caerdydd **10**

Ysgol Reoli Caerdydd **10**

Ysgol Chwaraeon a Gwyddorau Iechyd Caerdydd **14**

Ysgol Addysg a Pholisi Cymdeithasol Caerdydd **16**

Cyn-fyfyrwyr **18**

Eich camau nesaf **19**

Diolch **20**

Y Trothwy **22**


Cardiff Metropolitan University | Prifysgol Metropolitan Caerdydd

# Llongyfarchiadau gan Ganghellor y Brifysgol

## Fel Canghellor, rwy'n estyn llongyfarchiadau mawr ar gyrraedd carreg filltir go arbennig ac ar sicrhau eich lle yn y seremoni heddiw.

Mae'r seremoni raddio yn achlysur i ddathlu nid yn unig eich llwyddiant academaidd, ond hefyd yr ymroddiad, y gwydnwch a'r penderfyniad sydd wedi eich arwain chi yma. Mae eich cyflawniadau yn ganlyniad i waith caled, dyfalbarhad ac ymrwymiad i'ch nodau.

Heddiw, rydych wedi'ch amgylchynu gan deulu, ffrindiau, cyd-raddedigion ac aelodau o gymuned Prifysgol Metropolitan Caerdydd, sydd oll yn rhannu yn eich llwyddiant. Wrth i chi edrych ymlaen at bennod nesaf eich bywyd, gobeithiaf y gwnewch hynny gyda hyder, uchelgais a chyffro am cyfleoedd sydd o'ch blaenau.

Mae'r byd yn parhau i newid yn gyflym, gan ddod â heriau a chyfleoedd fel ei gilydd. Bydd y sgiliau, y gwytnwch a'r cyfeillgarwch rydych chi wedi'u datblygu ym Met Caerdydd i gyd yn eich helpu i gyrraedd eich nodau, beth bynnag ydyn nhw.

Felly llongyfarchiadau; diolch am ddewis astudio ym Met Caerdydd; ac rydym yn falch iawn o'r hyn rydych chi wedi'i gyflawni.

Cofiwch, nid dweud ffarwel yw'r nod heddiw; dyma'r gwrthwyneb, edrychwn ymlaen at berthynas gydol oes gyda chi, fel un o gyn-fyfyrwyr y Brifysgol hon. Mwynhewch eich diwrnod; a chadwch mewn cysylltiad, a rhowch wybod i ni am eich llwyddiannau yn y dyfodol hefyd!



**Stephen Wordsworth CMG LVO**

# Dirprwy Ganghellor a Llywydd Anrhydeddus

Fel Arglwydd Faer Caerdydd, mae'n fraint i mi weithio fel Dirprwy Ganghellor a Llywydd Anrhydeddus ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd.



Mae'n anrhydedd nodi dechrau eich seremonïau Graddio ac i ddathlu'r garreg filltir bwysig hon gyda chi mewn lleoliad mor arbennig.

Mae Caerdydd wedi bod yn gartref i mi ers blynyddoedd lawer, rwyf wedi profi ein cymunedau a phŵer trawsnewidiol addysg. Mae eich amser ym Met Caerdydd wedi rhoi'r wybodaeth, y sgiliau a'r hyder i chi gymryd y camau nesaf, ac nid oes gennyf unrhyw amheuaeth y byddwch yn gwneud cyfraniad cadarnhaol yn eich dewis feysydd.

Trwy gydol fy ngyrfa a'm gwasanaeth cyhoeddus, rwyf wedi bod yn falch o gefnogi mentrau cymunedol ledled y ddinas, ac mae'n ysbrydoledig gweld graddedigion a fydd yn parhau i lunio dyfodol Caerdydd.

Fel Dirprwy Ganghellor a Llywydd Anrhydeddus Prifysgol Metropolitan Caerdydd, estynnaf fy llongyfarchiadau i chi i gyd ar eich cyflawniadau ac, fel Arglwydd Faer, anfonwch ddymuniadau gorau gan Ddinas a Sir Caerdydd am eich llwyddiant yn y dyfodol.

**Y Cynghorydd Michael Michael**
**Y Gwir Anrhydeddus Arglwydd Faer Caerdydd**

# Croeso gan Gadeirydd Bwrdd y Llywodraethwyr y Brifysgol

## Ar ran Bwrdd y Llywodraethwyr, hoffwn eich llongyfarch ar raddio a'r wobr y byddwch yn ei derbyn heddiw.

Mae hwn yn gyflawniad arwyddocaol ac yn gyfle i ddathlu pob dim rydych wedi'i gyflawni yn ystod eich amser ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd. Mae eich llwyddiant yn adlewyrchu'r ymrwymiad, y penderfyniad a'r gwaith caled. Dylech fod yn falch o'r hyn rydych wedi'i gyflawni.

Gan weithio ochr yn ochr â'r Is-Ganghellor a staff y Brifysgol, mae Bwrdd y Llywodraethwyr wedi ymrwymo i sicrhau bod gan bob myfyriwr y profiad gorau posibl yn ystod eu hamser gyda ni. Rydych chi wedi bod yn aelod gwerthfawr o'n cymuned, ac nid yw'r cysylltiad hwnnw'n dod i ben ar ôl graddio. Fel graddedig o Brifysgol Met Caerdydd, byddwch bob amser yn rhan o'r Brifysgol, ac rydym yn eich annog i gadw mewn cysylltiad â ni, a'n hysbysu am ble bynnag y bydd bywyd yn eich tywys.



Wrth i'ch gyrfa a'ch taith bersonol ddatblygu, rwyf hefyd yn eich annog i barhau i wneud cyfraniad cadarnhaol i'r cymunedau a'r achosion sy'n bwysig i chi. Drwy ddefnyddio eich talentau, gwerthoedd a'ch dylanwad i greu newid ystyrlon, gallwch helpu i lunio dyfodol gwell i'r rhai o'ch cwmpas.

Llongyfarchiadau unwaith eto ar y cyflawniad nodedig hwn. Mwynhewch y diwrnod arbennig hwn a'r holl gyfleoedd sydd o'ch blaenau.

**John Taylor CBE**



# Croeso gan Lywydd ac Is-Ganghellor y Brifysgol

## Croeso cynnes i'ch Seremoni Graddio ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd.

Mae'n fraint enfawr cael rhannu uchafbwynt eich taith llwyddiannus yn y brifysgol gyda chi heddiw, ac ar ran cymuned gyfan y brifysgol, llongyfarchiadau mawr i chi gyd.

Mae heddiw'n ddiwrnod arbennig, dathliad o'ch talent, ymrwymiad, a'ch uchelgais. Rydych wedi ennill eich lle yma heddiw drwy waith caled; rydw i a fy nghydweithwyr yn hynod falch o'r hyn rydych wedi'i gyflawni. Gobeithiwn y byddwch yn cymryd ychydig o amser i fyfyrio ar eich cyflawniadau, ac y byddwch yn mwynhau'r dathliad gyda'ch teuluoedd, ffrindiau a chefnogwyr.

Mae eich diwrnod graddio yn nodi cwblhau eich astudiaethau gradd yn llwyddiannus. Cymerwch funud i fyfyrio gyda balchder ar yr hyn rydych wedi'i ddysgu a sut rydych wedi datblygu, ac edrych ymlaen at eich dyfodol gyda hyder. Bydd y wybodaeth, y sgiliau, a'r gwydnwch rydych wedi'u meithrin yn ystod eich amser ym Met Caerdydd yn eich helpu i'ch arwain drwy'r heriau a'r cyfleoedd sydd o'ch blaen.

O heddiw ymlaen, rydych yn ymuno â'n cymuned fyd-eang, fywiog o gyn-fyfyrwyr Prifysgol Metropolitan Caerdydd. Mae ein graddedigion yn destun balchder mawr i ni. Gobeithiwn y byddwch yn aros yn agos at Met Caerdydd wrth i chi barhau ar eich taith, gan rannu eich straeon ac ysbrydoli'r cenedlaethau sy'n dod ar eich ôl, ble bynnag y bo'ch llwybr yn mynd â chi.

Dymunwn llwyddiant, boddhad a hapusrwydd i chi i'r dyfodol, a gobeithiwn y cewch ddiwrnod gwych o ddathlu heddiw.

**Yr Athro Rachael Langford**
**BA MA PhD FRSA**
**Llywydd ac Is-Ganghellor**

# Yr Orymdaith

Mae'r Orymdaith Academaidd yn cynnwys y rhai a restrir isod a bydd yn mynd i mewn yn y drefn ganlynol:

**Prif Farsial**

**Aelodau o Staff Academaidd**

**Llywydd Undeb y Myfyrwyr**

Ashhar Khan –
Llywydd Profiad a Chynhwysiant UM

Suzann George –
Llywydd Addysg a Llesiant UM

Muskaan Ali –
Llywydd Gweithgareddau a Chymunedau UM

**Caplan**
A Bahadur-Kutkut

**Deon Ysgol Gelf a Dylunio Caerdydd**
Dr B Gordon BSc (Anrh) MSc TAR PhD FHEA

**Deon Dros Dro Ysgol Addysg a Pholisi Cymdeithasol Caerdydd**
Dr C Hannigan-Davies Bed, MSc PhD SFHEA MBCS CITP MAPM

**Deon Dros Dro Ysgol Chwaraeon a Gwyddorau Iechyd Caerdydd**
Dr H Wiltshire, BSc, PHD, SFHEA




**Deon Dros Dro Ysgol Dechnolegau Caerdydd**
Yr Athro J T Platts BEng MSc PhD CEng FIET MInstMC

**Deon Ysgol Reoli Caerdydd a Dirprwy Is-Ganghellor Busnes, Ymgysylltiad Byd-eang a Dinesig**
Yr Athro D J Brooksbank BSc MSc PhD PGCE FHEA CCMI FRSA FLSW

**Deon Addysgu a Dysgu**
Yr Athro J Longville BA PGCE MSc

**Dirprwy Is-Ganghellor Ymchwil ac Arloesi**
Yr Athro S Hanton BA MSc PhD FAASP

**Ysgrifennydd y Brifysgol**
R Davies MSc

**Dirprwy Is-Ganghellor a Phrofost**
Yr Athro K Thirlaway BSc PhD PFHEA HCPC

**Llywydd ac Is-Ganghellor**
Yr Athro R Langford BA MA PhD FRSA

**Dirprwy Ganghellor a Llywydd Anrhydeddus Prifysgol Metropolitan Caerdydd Y Gwir Anrhydeddus Arglwydd Faer Caerdydd Cynghorydd**
Y Cynghorydd Michael Michael

**Cadeirydd y Llywodraethwyr**
J Taylor CBE

**Canghellor**
S Wordsworth CMG LVO



# Trefn y Seremoni

**Yr Orymdaith**

**Agoriad Ffurfiol y Seremoni**

**Anrechiad y Llywydd a'r Is-Ganghellor**

**Cyflwyno'r Graddedigion**

**Derbyn y graddedigion i'w gradd**

**Yr anerchiad terfynol**

**Cau'r seremoni yn ffurfiol**

**Yr Orymdaith yn Gadael**

# Cyflwyno'r Dyfarniadau

Bydd graddedigion yn cael eu cyflwyno gan Ddeon yr Ysgol briodol neu'r enwebai dynodedig. Bydd myfyrwyr sydd wedi dewis derbyn eu graddau cychwynnol yn cael eu cyflwyno yn ôl eu henwadau dyfarniadau, gan y Cyflwynydd a fydd yn dweud: *"Llywydd ac IsGanghellor (neu enwebai), cyflwynaf i chi fyfyrwyr sydd wedi derbyn dyfarniad..."*

Mae'r Gweithredwyr Llywyddol yn derbyn graddedigion drwy ddweud: *"Yn unol â'r awdurdodau a ymddiriedwyd ynof gan Brifysgol Metropolitan Caerdydd, rwy'n eich derbyn i'ch dyfarniadau ac i holl freintiau'r dyfarniadau hynny."*



## Doethuriaeth er Anrhydedd

# Mark Dacey



Mae Mark Dacey, Pennaeth a Phrif Swyddog Gweithredol Grŵp Colegau NPTC, yn derbyn Doethuriaeth Anrhydeddus i gydnabod ei gyfraniad rhagorol i addysg bellach, datblygu sgiliau a bywyd cyhoeddus yng Nghymru.

Gyda bron i dair degawd o brofiad arweinyddiaeth uwch, mae Mark wedi chwarae rhan drawsnewidiol wrth lunio addysg bellach ledled Castell-nedd Port Talbot a de-orllewin Cymru. Ers dod yn Brifathro Coleg Castell-nedd Port Talbot yn 2004, ac yn ddiweddarach yn Brif Weithredwr y Grŵp yn 2013, mae wedi arwain twf sylweddol, gan sefydlu Grŵp y Coleg fel darparwr blaenllaw o addysg a hyfforddiant i ddysgwyr, cyflogwyr a chymunedau.

Mae taith Mark yn enghraifft ysbrydoledig o ddysgu gydol oes a symudedd cymdeithasol. Gan adael yr ysgol yn 15 oed heb unrhyw gymwysterau ffurfiol, aeth ymlaen drwy addysg bellach cyn parhau â'i astudiaethau ym Mhrifysgol Caerdydd, sef Coleg Polytechnig Cymru ar y pryd a Phrifysgol Strathclyde. Ers hynny mae wedi cyflawni cymwysterau academaidd a phroffesiynol helaeth ac mae'n Gymrawd o Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (FRICS).

Mae ei yrfa'n cwmpasu addysgu, arweinyddiaeth cwricwlwm a rheolaeth uwch, ochr yn ochr â gwasanaeth cenedlaethol fel un o Arolygwyr Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant. Mae'n parhau i gyfrannu at fywyd cyhoeddus drwy rolau arweinyddiaeth yn cefnogi pobl ifanc, cymunedau a datblygiad rhanbarthol.

# Dydd Llun 13 Gorffennaf 2026 10.00yb / 1.30yp / 4.00yp

## Ysgol Chwaraeon a Gwyddorau Iechyd Caerdydd

- Gofynnir i'r gynulleidfa sefyll yn ystod yr Orymdaith Academaidd.
- Bydd yr Athro Sheldon Hanton, Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil ac Arloesi) (10.00yb), a'r Athro Rachael Langford, Llywydd ac Is-Ganghellor (1.30yp a 4.00yp), yn annerch y gynulleidfa ar gyfer agoriad ffurfiol y seremoni.
- Bydd Dr Huw Wiltshire, Deon Dros Dro Ysgol Chwaraeon ac Gwyddorau Iechyd Caerdydd (10.00yb a 4.00yp), a Dr Lowri Mainwaring, Dirprwy Ddeon (1.30yp), yn cyflwyno'r graddedigion.
- Bydd myfyrwyr nawr yn cael eu galw'n unigol i groesi'r llwyfan.
- Bydd Swyddog Llywyddu'r Brifysgol yn derbyn y graddedigion.
- Bydd John Taylor CBE, Cadeirydd y Llywodraethwyr, yn traddodi'r anerchiad terfynol.
- Ar ôl cau'r seremoni, gofynnir i'r gynulleidfa sefyll yn ystod yr Orymdaith Academaidd.





Enillydd

Ysgol Chwaraeon a
Gwyddorau Iechyd Caerdydd
**Gwobr y Deon 2026**

Tanis Hanniford
BSc (Anrh) Gwyddor Bwyd

Enillydd

Ysgol Chwaraeon a
Gwyddorau Iechyd Caerdydd
**Gwobr y Deon 2026**

Chris Wilkins
BSc ((Anrh) SCRaM

## Dydd Mawrth 14 Gorffennaf 2026 10.00yb

### Ysgol Gelf a Dylunio Caerdydd

- Gofynnir i'r gynulleidfa sefyll yn ystod yr Orymdaith Academaidd.
- Bydd yr Athro Katie Thirlaway Dirprwy Is-Ganghellor, yn annerch y gynulleidfa ar gyfer agoriad ffurfiol y seremoni.
- Bydd Dr Bethan Gordon, Deon Ysgol Gelf a Dylunio Caerdydd, yn cyflwyno'r Graddedigion.
- Bydd myfyrwyr yn cael eu galw'n unigol i groesi'r llwyfan.
- Bydd yr Athro Katie Thirlaway Dirprwy Is-Ganghellor, yn derbyn y Graddedigion.
- Bydd John Taylor CBE, Cadeirydd Bwrdd y Llywodraethwyr, yn traddodi'r anerchiad olaf.
- Ar ôl cau'r seremoni, gofynnir i'r gynulleidfa sefyll yn ystod yr Orymdaith Academaidd.

## Dydd Mawrth 14 Gorffennaf 2026 1.30yp

### Ysgol Dechnolegau Caerdydd ac Ysgol Reoli Caerdydd

- Gofynnir i'r gynulleidfa sefyll yn ystod yr Orymdaith Academaidd.
- Bydd yr Athro Katie Thirlaway, Dirprwy Is-Ganghellor a Phrofost yn annerch y gynulleidfa ar gyfer agoriad ffurfiol y seremoni.
- Bydd yr Athro David Brooksbank, Deon Ysgol Reoli Caerdydd, a'r Athro Jon Platts, Deon Ysgol Dechnolegau Caerdydd, yn cyflwyno'r Graddedigion.
- Bydd myfyrwyr nawr yn cael eu galw'n unigol i groesi'r llwyfan.
- Bydd yr Athro Katie Thirlaway, Dirprwy Is-Ganghellor a Phrofost yn derbyn y Graddedigion.
- Bydd John Taylor CBE, Cadeirydd Bwrdd y Llywodraethwyr, yn traddodi'r anerchiad olaf.
- Ar ôl cau'r seremoni, gofynnir i'r gynulleidfa sefyll yn ystod yr Orymdaith Academaidd.



**Enillydd**

Ysgol Dechnolegau Caerdydd
**Gwobr y Deon 2026**

Amirhossein Hajianfar
BSC (Anrh)
Cyfrifiadureg
(Deallusrwydd Artiffisial)

**Enillydd**

Ysgol Gelf a Dylunio Caerdydd
**Gwobr y Deon 2026**

Samuel Dowling
BA (Anrh) Cerameg

# Dydd Mercher 15 Gorffennaf 2026 10.00yb / 1:30yp

## Ysgol Reoli Caerdydd

- Gofynnir i'r gynulleidfa sefyll yn ystod yr Orymdaith Academaidd.
- Bydd yr Athro Rachael Langford, Llywydd ac Is-Ganghellor, yn annerch y gynulleidfa ar gyfer agoriad ffurfiol y seremoni.
- Bydd yr Athro David Brooksbank, Deon Ysgol Reoli Caerdydd a Dirprwy Is-Ganghellor Busnes, Ymgysylltiad Byd-eang a Dinesig, yn cyflwyno'r Graddedigion.
- Bydd myfyrwyr nawr yn cael eu galw'n unigol i groesi'r llwyfan.
- Bydd yr Athro Rachael Langford, Llywydd ac Is-Ganghellor, yn derbyn y Graddedigion.
- Bydd y Canghellor, Stephen Wordsworh CMG LVO, yn traddodi'r anerchiad olaf.
- Ar ôl cau'r seremoni, gofynnir i'r gynulleidfa sefyll yn ystod yr Orymdaith Academaidd.





Enillydd

Ysgol Reoli Caerdydd
**Gwobr y Deon 2026**

Finlay Spaargaren
BA (Anrh) Busnes a Rheoli (Marchnata)

# Dydd Iau 16 Gorffennaf 2026 10.00yb / 1:30yp

## Ysgol Addysg a Pholisi Cymdeithasol Caerdydd

- Gofynnir i'r gynulleidfa sefyll yn ystod yr Orymdaith Academaidd.
- Bydd yr Athro Rachael Langford, Llywydd ac Is-Ganghellor, yn annerch y gynulleidfa ar gyfer agoriad ffurfiol y seremoni.
- Bydd Dr Cecilia Hannigan-Davies, Deon Dros Dro Ysgol Addysg a Pholisi Cymdeithasol Caerdydd, yn cyflwyno'r Graddedigion.
- Bydd myfyrwyr nawr yn cael eu galw'n unigol i groesi'r llwyfan.
- Bydd yr Athro Rachael Langford, Llywydd ac Is-Ganghellor yn derbyn y Graddedigion.
- Bydd Stephen Wordsworth CMG LVO, Canghellor yn traddodi'r anerchiad terfynol.
- Ar ôl cau'r seremoni, gofynnir i'r gynulleidfa sefyll yn ystod yr Orymdaith Academaidd.





Enillydd

Ysgol Addysg a Pholisi Cymdeithasol Caerdydd
**Gwobr y Deon 2026**

Anna Davidge
BSc (Anrh) Addysg, Seicoleg ac AAA

# Croeso i Gymuned Graddedigion Met Caerdydd






**Llongyfarchiadau ar gwblhau eich astudiaethau! Rydych chi'n ymuno â chymuned fyd-eang o gyn-fyfyrwyr Prifysgol Metropolitan Caerdydd.**

Er mwyn eich diweddaru â'r holl newyddion a'r diweddariadau am Met Caerdydd, rydych wedi'ch cofrestru ar ein cronfa ddata. Mae gennych hefyd fynediad at ystod o fudd-daliadau, gan gynnwys:

- Gostyngiad i gyn-fyfyrwyr ar gyfer rhaglenni ôl-raddedig cymwys – edrychwn ar ein gwefan am y wybodaeth ddiweddaraf
- Cymorth gyrfaoedd ar ôl graddio
- Aelodaeth campfa a chwaraeon gostyngol
- Mynediad i ganolfannau dysgu ar y campws

Mynediad i'ch cyfrif: **alumni.cardiffmet.ac.uk**

Cofrestrwch a chadwch eich manylion yn gyfredol: **www.cardiffmet.ac.uk/alumni**

Edrychwn ymlaen at glywed am eich llwyddiannau yn y dyfodol!



# Eich cam nesaf

Gallech fod yn gymwys ar gyfer Gostyngiad Cyn-fyfyrwyr Met Caerdydd. *Ewch i'n gwefan am fanylion llawn.*



**Llongyfarchiadau gan bawb ym Met Caerdydd ar raddio. Mae'n benllanw ar eich gwaith caled a'ch ymroddiad, ac yn gyflawniad gwych gobeithiwn y byddwch chi'n mwynhau ei ddathlu gyda ffrindiau, teulu ac anwyliaid.**

Os ydych chi'n dechrau meddwl am beth sydd nesaf, mae'n bosib y bydd astudiaeth ôl-raddedig neu ymchwil bellach yn rhywbeth rydych chi wedi'i ystyried. Trwy barhau â'ch taith academaidd gyda ni, byddwch yn rhan o gymuned ôl-raddedig ac ymchwil sy'n tyfu gyda dros 3,000 o fyfyrwyr o bob cwr o'r byd. Bydd ein rhaglenni yn datblygu eich gwybodaeth pwnc arbenigol ymhellach, yn gwella eich rhagolygon gyrfa ac yn darparu sbardun ar gyfer astudio pellach.

Darganfyddwch fwy yma:
**www.cardiffmet.ac.uk/postgraduate**



# Diolch

**Hoffai Prifysgol Metropolitan ddiolch i'r noddwyr canlynol:**

Cyfrifeg ACCA
Arcade Campfa
Barbara Wilding
Blue Self Storage
Cangen Cymru i Gymdeithas Seicolegol Prydain
Sefydliad Siartredig Technolegwyr Pensaernïol (CIAT)
Sefydliad Tai Siartredig Cymru CIAT (Cymru)
Grŵp AspirATion
Dylan Rowlands
Ede & Ravenscroft
Eversheds Sutherland
Graham Paul
Penseiri HLM
Sefydliad Gwyddoniaeth Biofeddygol
Teledu Darlledu Chwaraeon Met
Morgan Hall
Natalie Webb
Gwasg Prifysgol Rhydychen
Potclays
Penseiri Rio
S A Brain
Steven Harding
Cymdeithas Twristiaeth mewn Addysg Uwch
Cymdeithas Frenhinol Bioleg
Canolfan Mileniwm Cymru
Zoe Pieris

**Y teuluoedd a'r ffrindiau sy'n rhoi gwobrau er cof am:**

Alan Barrett-Danes
Bert Jones
Causero
David Leonard
Dilys Price
Gareth Jones
Helen Gregory
John Dobson
Lavinia Bletchley
Louise Fielding
Mike Wadsworth
Mrs Robert Picton
Neville Gaunt
Non Thomas
Non-Lane
Rachel Stickler
Ray Newberry
Ria Blakeman
Richard Morris
Susan Clease


Cardiff
Metropolitan
University
Prifysgol
Metropolitan
Caerdydd







# Y Trothwy

Isobel Stevens
MA Ysgrifennu Creadigol

Unwaith eto da chi'n ffeindio'ch hun ar drothwy rhywbeth –

Y nerfau 'na sy'n fwy cyfarwydd 'na da chi'n feddwl; sydd

wedi'ch cyffwrdd chi ynghynt –

wrth symud fewn, yn hisian drysau awtomatig Llandaf neu Chyncoed.

Ma nhw di'ch cyfarch chi'n y cyfarfod cymdeithas cynta' neu'r cam cynta 'na fel Saethwr,

Roeddech chi ddigon dewr i neud y newid

Ei gyfarch ag ofn, ag ansicrwydd

Ond o'r pryder hwnnw, mynd ati i greu bywyd bach newydd eich hun.

Heddiw, yn eich cadair, â'ch het yn drwm o falchder,

Llwyddiant yn llif eich gŵn –

Gadewch i'r cyflawniadau fod yn atgof eich bod wastad wedi gallu ei wneud.

Meddyliwch yn ôl, roeddech chi ar ei drothwy bryd hynny –

Y ffrindiau cynta', sy'n agor breichiau bellach â chynhesrwydd blynyddoedd.

Yr epiffani cynta'. Lle ma'r dysgu'n troi'n wybodaeth.

Y canfod yn tanio matsen sydd bellach yn angerdd.

Gan feithrin eich annibyniaeth, siapio dechrau newydd,

Fe edrychoch chi rownd Caerdydd a sylwi mai chi sydd piau'r ddinas

Ac fe allwch ailddyfeisio'ch hun bob dydd, os dymunwch.

Ffeindio pleser mewn cydnabod a chydnabyddiaeth,

Yn gyntaf da chi'n dysgu'ch llwybr bws, ac yna'n ffeindio ffordd o ennill amser drwy lwybrau culion.

Sgyrsiau ffwrdd-â-hi â'r person drws nesa'n troi'n jôcs mewnol, yn rhannu tŷ,

yn camu i stafelloedd a bywydau'ch gilydd a'i alw'n adref, bron.

Roeddech chi ar ei drothwy bryd hynny –

Yn dysgu am eich hun a'ch lle yn y byd.

Y nosweithiau hir, dechrau'n fuan – gwneud y mwyaf o'r amser tra'i fod gennych.

O fewn amser bydd hyn yn atgof, felly arhoswch yn yr eiliad am fymryn.

Cofiwch pwy oeddech chi, a dathlwch pwy ydych chi.

I gyrraedd terfyn prifysgol – chi, nawr

Ar fin troedio'r llwyfan.

Chi, sydd ar fin graddio
o Met Caerdydd.

Chi, sydd wedi ymroi
a gweithio'n galed.

Chi, sydd unwaith eto'n gweld
eich hun ar drothwy rhywbeth –

Rydych yn fwy cyfarwydd â'r
dyfodol, a'r hyn mae'n ei addo
nag y gwyddoch.

Yfory mi fyddwch yn rhywbeth
newydd, ond heddiw,

Mwynhewch lwyddiant eich
dyfalbarhad a'ch gwaith caled.

Nid dyma'r diwedd,

Yr eiliad hon, fan hyn,

Rydych ar drothwy
rhywbeth arbennig.



Cardiff Metropolitan University | Prifysgol Metropolitan Caerdydd

Dilynwch ni **@metcaerdydd**

Gwnaed pob ymdrech i sicrhau cywirdeb y wybodaeth yn y rhaglen hon pan gafodd ei chyhoeddi.